YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD. MAI, 1920. [CYF. XX. RHIF 5.

AR ADEN FFYDD.

GWEDDI AM ARWEINIAD.

[Seiliedig ar Emyn Cardinal Newman.]

Arwain fi, Oleuni tirion,
Ym mheryglon anial wlad ;
Erchyll nos a'm goddiweddodd,
Minnau 'mhell o dy fy Nhad ;
Cadw'm traed rhag cyfeiliorni,
Gad im' gyrraedd adre'n fyw ;
Gweledigaeth bell ni cheisiaf,
Cam yn mlaen a digon yw.

Nid erioed y bum, ti wyddost,
Addfwyn ostyngedig un ;
Gweled gynt a garwn innau,
Dewis ffordd i mi fy hun ;
Bum ry hoff o'r dydd goleuwych,
Ac er dirgel ofnau lu,
Calon falch a'm llywodraethai,
Maddeu'r cyfeiliornad fu.

Hyd yn hyn y'm cynorthwyaist,
Bellach, ti a'm dygi 'mlaen,
Hwnt i gors, a chraig, a chenllif,
Nes bod goleu dydd ar daen ;
Ac y dychwel i'm sirioli,
Angel wenau rhai cyn hyn
Fuont anwyl, anwyl imi,
Ond a gollais yn y glyn.

HUW MYFYR.

ODDIAR Y TWR.

Cenadwri Evan Roberts i Gymru—a'r Byd, Yn ddiweddar, gofynnwyd i Evan Roberts, y Diwygiwr adnabyddus, roddi cenadwri i weinidog ieuanc yn dechreu ei weinidogaeth, a dyma ddywedodd: "Gwnewch y llyfr hwn (gan gyfeirio at Epistol cyntaf Ioan) yn destyn-lyfr. Pwysleisia Ioan gariad. Mae'r byd yn llawn o gasineb. Pregethwch gariad. Cyfansoddodd a chanodd Germani emyn o gasineb. Rhaid i fobl suddo yn isel iawn cyn y gallant wneud hyn. Y mae gormod o gasineb cyd-rhyngom a'n gilydd. Rhaid inni godi'n uchel i bregethu, dysgu, ac arfer cariad. Cofiwch, cariad brawdol bwysleisir gan Ioan, ac os nad yw hwn gennym, sut y gallwn garu pobl tu allan i'n gwlad a gelynion? Cenadwri Ioan yw'r genadwri addas i'n hamser a nodweddir gan gymaint o gasineb, a dylai gael lle amlwg yn yr eglwys. Dylid ei phwysleisio fel na wnawd erioed o'r blaen." Da iawn, onite?

* * *

Yr elfen gâs. Elfen anhawdd iawn ei hesbonio yw'r elfen hon o gasineb. Fe dreiddia drwy bob adran o gymdeithas, yn fydol ac eglwysig, fel cancr, gan fogi pob elfen ragorach a berthyn i'r natur ddynol. Ie, fe ffynna mewn byd ac eglwys; yn hyn nid oes gan yr eglwys fawr iawn o le i daflu carreg at y byd. Dyweder a fynner, yr elfen gâs, yn rhy gyffredin, yw'r elfen lywodraethol hyd yn oed yn y byd crefyddol. "Gwelwch fel y mae'r Cristionogion hyn yn caru eu gilydd:" iaith edmygedd oedd hon gynt; heddyw, iaith cyhuddiad ydyw, a gormod o wirionedd ynddi. Hyfrydwch pennaf ambell i Gristion ydyw trywanu ei gyd-Gristion i'r byw—pan y câ gyfle. Dyna'r elfen sydd, yn bennaf, yn gyfrifol am gyflwr cynhyrfus presenol cymdeithas ym mhob cysylltiad o honi; a hyd y rhoddir lle mwy blaenllaw i'r arferiad o'r cariad a bwysleisir gan Iesu a'i Apostolion, ni ellir disgwyl llawer o welliant.

* * *

Yr Eglwys Sefydledig. Er y dydd cyntaf o Ebrill, y mae'r Eglwys (Sefydledig) yn Eglwys Rydd—rhydd, o leiaf, mor bell ag y mae a fynno ei rhyddid a'i chysylltiad â'r wladwriaeth. Y mae hanes y ddadl a'r frwydr a arweiniodd i hyn yn un maith, yn cyrraedd yn ol dros yr hanner can mlynedd diweddaf. Bu raid i lawer o wrthwynebwyr ac amddiffynwyr aiddgaraf y sefydliad roddi eu harfau i lawr cyn gweled y terfyn, Poeth iawn fu y frwydr; a chwerw hefyd—yn enwedig ar rai adegau. O'r diwedd dygwyd y frwydr i derfyn drwy i Fesur o Ddatgysylltiad a Dadwaddoliad gael ei basio drwy ddeudy'r Senedd; ac ar y dydd a enwyd, daeth y gyfraith i weith-

rediad, mor esmwyth a digynhwrf a phe na byddai un gwahaniaeth barn gyda golwg ar ei theilyngdod.

* * *

Beth fydd eto. Wrth feddwl am y cyfnewidiad, daw'r gofyniad i'm meddwl—beth fydd effaith y sefyllfa newydd ar y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Enwadau Ymneilltuol? Hyd yma, nid dymunol fu y teimladau ffynnai rhyngddynt. Yr oedd hyn, dan yr amgylchiadau yn anocheladwy. Naturiol oedd i Eglwyswyr, oddiar y safle o ffafraeth roddid iddi gan ei chysylltiad â'r Wladwriaeth, i edrych i lawr gyda gradd o ddirmyg ar Ymneilltuwyr; a'r un mor naturiol oedd i Ymneilltuwyr i fod yn anfoddog. Ar ol i achos y drwg deimlad gael ei symud, ein gobaith ydyw y gwawria cyfnod newydd, nodwedd amlycaf yr hwn fydd cariad brawdol cyd-rhwng yr holl eglwysi—Eglwysyddol ac Ymneilltuol.

* * *

Hanes Ymneilltuaeth. Hanes diddorol iawn yw hanes Ymneilltuaeth yng Nghymru; ond hanes ydyw, ysywaeth, y ffynna cryn lawer o anwybodaeth mewn perthynas iddo. Pa mor lliosog yw nifer y rhai fedrant ddweyd sut y daeth Ymneilltuaeth—sut y daeth pob un o'r enwadau Ymneilltuol—i fodolaeth? Nid ar y bobl y mae'r holl fai am hyn. Ychydig sydd wedi ei wneud i ddwyn gwybodaeth parthed y rhan hon o hanes Cymru tu fewn i gyrraedd y werin. Y mae "Ymneilltuaeth yng Nghymru," o awduraeth Dr. Rees, Abertawe, yn ardderchog; ac y mae gan bob un o'r enwadau eu hanes; eithr y maent oll, ar gyfrif eu maintioli a'u pris, yn gyrraeddadwy i'r ychydig yn unig. Ymgais dda iawn i lanw'r bwlch ydyw llyfryn y Prifathraw Thomas Rees, M.A., Bangor, ar "Hanes Ymneilltuaeth yng Nghymru." Rhydd fraslun digon cyflawn o ddechreuad a chynnydd Ymneilltuaeth i fod yn ddiddorol a darllenadwy iawn. Cyhoeddwyd ef yn 1912; eithr yn ddiweddar y daeth copi o hono i'm llaw. Teilynga gylchrediad eang; oblegid perygl y cenhedlaethau sydd i ddod fydd colli golwg ar hanes mudiad fu, yn ddiamheuol, yn un o'r cyfryngau nertholaf—braidd na ellir dweyd yr unig gyfrwng i godi Cymru.

* * *

Dyfodol Ymneilltuaeth. Gwrthdystiad yn erbyn difaterwch yr Eglwys Sefydledig, yn bennaf, oedd Ymneilltuaeth yn ei chychwyniad. Pan y mae'r eglwys wedi deffroi, a'i rhyddhad o hualau'r wladwriaeth wedi ei gwneud yn Eglwys Rydd, a'r rheswm pennaf (neu un o'r rhesymau pennaf) dros fodolaeth Ymneilltuaeth felly wedi ei ddirymu, beth am ddyfodol Ymneilltuaeth? Cwestiwn yw hwn na ellir ei ateb; ond cwestiwn diddorol ydyw er hynny.

Y Prifathraw Rees a'r Undodiaid. Yn ei lyfryn ar Ymneilltuaeth, y cyfeiriwyd ato uchod, dyry'r awdur amryw ddalennau o hanes cychwyniad, cynnydd a safle bresennol Undodiaeth yng Nghymru. Y mae'r hanes yn un hynod o deg, wedi ei ysgrifennu mewn cywair tra gwahanol i'r hyn y gwneir gan awduron iawnffyddol yn gyffredin pan yn son am Undodiaeth. Dyma beth ddywed am wasanaeth Undodiaeth: "Gan nad faint oedd diffygion duwinyddiaeth yr Undodiaid, cadwasant o flaen meddwl y wlad rai gwirioneddau, yr oedd perygl colli golwg arnynt. Daliasant ogoniant Un Duw, gyferbyn ag aml-dduwiaeth y Babaeth; ei Dadolaeth gariadus a rhesymol, gyferbyn ag un-bennaeth ddiamodol Uchel-Galfiniaeth; urddas dyn, ei reswm, ei ryddid, a'i gyfrifoldeb moesol, gyferbyn ag oll-dduwiaeth y gyfundrefn Uchel-Galfinaidd. O safbwynt iachawdwriaeth, y mae mor angenrheidiol credu yn nynoliaeth wir a chyflawn Crist ag yn ei ddwyfoldeb. Am hynny, gwrthodasant athrawiaeth y Drindod a'r Ymgnawdoliad, fel y ffurfiwyd hwy yng Nghredo Athanasius; ac athrawiaeth y cyfrifiad yn yr Iawn, fel y dysgai Anselm a'i olynwyr hi. Ond er bod eu hathrawiaeth yn ddiffygiol ac unochrog, am mai codi fel gwrthdystiad wnaeth, yr oedd eu perthynas â Iesu Grist yn dra chyffelyb i eiddo'r Trindodwyr. . . . Erbyn heddyw, y mae'r Undodiaid, fel enwadau ereill, wedi symud cryn dipyn o'r safle uchod (cyfeirir at y Gredo Undodaidd yn un o *Ymofynyddion 1870*) yn eu syniadau am ddatguddiad a gwyrthiau, ac yn eu dull o egluro person Crist. Ond glynant yn gadarn wrth ei arglwyddiaeth foesol, ac am hynny hawliant ryddid llawn i bob dyn i roi ufudd-dod syml i'r Arglwydd Iesu." Yn ei lyfryn o 90 tudalen, dyry bum tudalen i'r Undodiaid.

* * *

Cyferbyniad dau ddarlun. Gwelir un darlun—un dymunol iawn—yn y paragraff uchod. Dyma'r llall: Yn ei hanes o Ymneilltuaeth yng Nghymru (Saesneg), llyfr o dros bum cant o ddalennau, dyma'r cwbl ddywed y Dr. Rees, o Abertawe, am yr Undodiaid: "Y mae gan yr enwad hwn ddeg-ar-hugain o addoldai yn Neheudir Cymru, ac oddeutu pum mil o ymlynwyr. Y mae'r oll o'r gweinidogion yn ddysgedig, a'r rhan fwyaf o'r bobl yn rai deallgar. Yr ardal lle y ffynnant yw y rhan ddeheuol o Geredigion, o Lanbedr i Gastellnewydd." Sylwed y darllenydd ar y darlun hwn, ac yna, ar y llall.

SYLWEDYDD.

DARLLEN.

Dywedodd un a ystyrrid yn ddoeth yn ei ddydd, "Nid oes diben ar wneuthur llyfrau lawer, a darllen llawer sydd flinder i'r cnawd." Pan ystyriom yr oesai y "gwr doeth" gannoedd o flynyddoedd cyn Crist, nis medrwn lai na gwenu wrth feddwl am dano yn cwyno oherwydd bod gormod o lyfrau yn y byd. Yr adeg honno, ysgrifennid llyfrau gan mwyaf ar grwyn, a sicr yw eu bod yn ddrud ac anaml. Hefyd yng Nghaldea, a mannau eraill, ysgrifennid ar lechi o glai, ac ar ol eu llosgi fel pridd-lech mewn odyn, byddent yn gofnodion parhaol iawn. Mae llawer iawn o honynt mewn bod heddyw, yn gynhorthwy i ddadrys hanes y gorffennol. Hefyd defnyddid

Corsen a Dyfai ar Lannau Afonydd,

yr hon wedi ei hollti a wnai ddefnydd gwydn i ysgrifennu arno. *Papyrus* y galwai'r Groegiaid y gorsen hon, a dyma darddiad y gair *papur*. Enw arall ar blisgyn mewnol y gorsen hon oedd *byblos*, a dyma darddiad y gair Beibl. Pe byddai raid ei ysgrifennu a'r llaw heddyw, faint fyddai pris cyfrol o'r Beibl, tybed? Na, nis gallasai nifer llyfrau fod yn lliosog yn amser y pregethwr.

Hawdd yw credu, fodd bynnag, bod

Darllen Llawer yn Flinder i'r Cnawd

yn yr hen amser. Ni wahenid un gair oddiwrth y llall, fel y gwneir heddyw, ond ymddangosai tudalen o ysgrif neu femrwn cyfan fel pe na fyddai'r oll ond un gair ryw filltir neu ragor o hyd. Byddai raid i'r darllenwr i rannu'r llythyrennau yn eiriau priodol. Hefyd, nid oedd y fath beth ag atalnod mewn bod; a gwaeth na'r cwbl y cydseiniaid yn unig a ysgrifennid (fel y gwneir gyda llaw-fer Pitman heddyw); felly, gwaith y darllenydd oedd gosod y llafariaid iawn rhwng y cydseiniaid. Gŵyr y cyfarwydd y fath dreth ar y meddwl fyddai darllen o dan yr amgylchiadau hyn. Tua'r bumed ganrif o oedran Crist y dechreuwyd ysgrifennu'r llafariaid gyda'r cydseiniaid yn yr iaith Hebraeg. Onibae i ddyfais rwyddhau'r gorchwyl, ychydig o ddarllen fyddai ar lyfrau heddyw.

Erbyn hyn, medr pob plentyn yn yr ysgolion elfennol ddarllen, ac esmwyth yw eu byd wrth blant yr Iddewon gynt. Gwnaeth y

Ddyfais o Argraffu a Gwneud Papur

lyfrau yn eglur a rhad, ac mor amlbion a gwlith y bore.

Nid Bendith Digymysg

yw hon, oherwydd gorlifo'r farchnad a llyfrau o ddaioni ambeus. Hawdd iawn heddyw yw gwastraffu amser gwerthfawr wrth ddarllen llyfrau nad ydynt o fawr gwerth, a dweyd y lleiaf. Nid yw siop llawer llyfrwerthwr yn werth ei chario i dref, heb son am un tâl arall. Credwn, er hyn, fod llawer llai o sothach ymhlith llyfrau Cymraeg na llyfrau Saesneg. Addefwn fod gweld siop gyfan wedi ei llwytho a nofelau rhâd yn tueddu i godi cyfog arnom. Nid yw y rhan fwyaf ohonynt ond sothach i ladd amser sydd yn faich ar y segur. Ym marn nifer aruthrol ni olyga "llenyddiaeth" ddim ond nofelau newyddion!!; a thybiant eich bod yn anhyddysg iawn oni fyddo eich meddwl fel yr eiddynt hwy wedi ei drwytho â'r math hwnnw ar orffwylledd.

Pwnc pwysig ynte yw

Beth yw Diben Darllen?

Os dywed rhywun mai "lladd amser" ydyw'r diben, nid oes gennym ddim i ddweyd wrth hwnnw ond fod cyfrifoldeb lled drwm ar ei ysgwyddau. Addefwn, fodd bynnag, fod darllen er mwyn pleser a difyrrwch yn beth hollol gyfreithlon, a phell ydym o gondemnio nofelau Daniel Owen. Cawsom lawer o bleser a budd wrth ddarllen "Rhys Lewis." Mae nofelau Cymraeg, mor bell ag y gwyddom ni, yn rhydd o drwyth moesol gwenwynig llawer o'r nofelau Saesneg; a gwedi llafur a lludded y dydd, a'r meddwl yn rhy flinedig i droi at lenyddiaeth drom, gwaith doeth a buddiol ddigon yw eistedd ar aelwyd gysurus a darllen nofel iachus. Er hyn, gosodwn bwyslais ar y ffaith mai camsynied dybryd yw ystyried darllen nofelau fel un o brif foddion diwylliant.

Mwy diddorol o lawer i ni fel "llenyddiaeth ysgafn" yw llyfrau hanes, llyfrau yn desgrifio gwledydd a thrigolion tramor, gyda darluniau gwych ynddynt, hefyd llyfrau yn darlunio ardaloedd, pobl, a diwydiannau ein gwlad fechan ni, a hanes bywydau goreuon y ddaear. Hoffem yn fawr feddu pob llyfr a gyhoeddwyd erioed yn desgrifio Cymru a'i thrigolion, gyda darluniau da o'i hardaloedd prydferth. Yr ydym o'n hangen wedi gwario llawer punt ar lyfrau o'r fath, ac yn debyg o wario ychwaneg eto. Ac nid yw barddoniaeth unrhyw wlad yn apelio atom fel barddoniaeth Cymru. Dyma adnoddau helaeth i lanw ein horiau hamddenol a phleser nas gall dim ragori arno.

Un o ddibenion pwysig darllen yw

Gwella ein Harddull

wrth ysgrifennu iaith ein mebyd, ac i'r amcan hwn rhaid troi at y clasuron. Ceir llawer gair prydferth, llawer brawddeg dlos, a llawer priod-ddull yn llawn o swyn cartrefol, yn y Mabinogion,—yr iaith ac nid yr hanesion sydd yn ein diddori ni. Nis gellir hepgor "Bardd Cwsg" Elis Wyn,—o ran arddull, dyma'r coethaf o glasuron Cymru. Rhagorol hefyd yw "Llyfr y Tri Aderyn" Morgan Llwyd, a "Drych y Prif Oesoedd" Theophilus Evans. Cofier, eto, nad yw'r olaf o un gwerth fel hanes, ond mae'r arddull yn ddichlyn odiaeth. Pe astudid ychwaneg ar y clasuron hyn byddai gwell gwedd ar y Gymraeg a ysgrifennir heddyw. Amlwg i bawb yw bod gwell graen ar Gymraeg y cylchgronau heddyw nag oedd ugain mlynedd yn ol,—ffrwyth astudiaeth yr hen iaith yn y colegau yn ddiau,—yn anffodus ni chawsom ni y fraint honno. Gresyn yw gweld cymaint o weinidogion Cymru heddyw yn ysgrifennu yn null llac, anrhefnus a llygredig eu teidiau hanner canrif yn ol. Onid yw puro'r iaith yn rhan o'u dyledswydd hwy?

Prif ddiben darllen, yn ddiau, yw

Ychwanegu Gwybodaeth

a diwyllio'r meddwl. Nid yw llenyddiaeth Cymru yn gryf yng ngwahanol ganghennau gwyddor, ac yn hyn o beth rhaid troi at y Saeson. Mae llyfrau gwyddonol y Sais yn deilwng o bob clod—yr hyn nis gellir ddweyd am ei nofelau,—a thlawd iawn fydd gwybodaeth y Cymro a wrthyd fwydo ei feddwl a gwyddor y dydd. Mae gwybodaeth yn symud yn gyflym, a gresyn fyddai ail-godi Clawdd Offa i'w chadw o ardaloedd tawel Cymru. Credwn fod gan y Cymro dalent arbennig at Wyddor ond iddo ei diwyllio. Mae dychymyg fywiog o werth anrhaethol i'r darganfyddwr yn nhiriogaeth gwyddor, ac os deffry Prif-Ysgolion Cymru i'w dyledswydd yn y cyfeiriad hwn, credwn y daw'r dydd pan edrych y Sais, nid i'r Almaen, ond i Gymru am arweinyddion ym myd Gwyddor. Credwn ymhellach

NAS GALL GWYDDOR WNEUD MATEROLWR OER O'R CYMRO,

fel y gwnaeth a'r Almaenwr. Mae rhywbeth yn natur y Celt na chydfydd a materolaeth.

Wrth edrych ar silffau rhyw lyfrgell fawr, a gweld y cannoedd llyfrau a gyhoeddir ar bob testun dan haul, efallai y teimla'r anghyfarwydd ei galon yn disgyn i'w esgidiau wrth feddwl am feistroli unrhyw gangen o wybodaeth ; ond nid oes achos digalonni—ar y cyfan, yr un ffeithiau geir yn y mwyafrif mawr o'r llyfrau hyn. Y pwnc i'r efrydydd ieuanc yw cael gafael ar un llyfr safonol i ddechreu, a meistroli hwnnw yn drwyadl. Gwell o lawer, yn enwedig ar gyfer arholiad, yw

MEISTROLI UN LLYFR SAFONOL

na darllen cant o lyfrau yn frysiog. Nis gall y mwyaf trwyadl ddarllen pob llyfr a gyhoeddir ar un unrhyw bwnc, a phe medrai wneud, ni fyddai hynny ond gwastraff ar amser—sef darllen ffeithiau hollol wybyddus iddo drosodd a throsodd drachefn.

Dylai'r cyffredin ohonom nithio a nithio'n ddoeth dan gyfarwyddyd arweinydd diogel,—mae bywyd yn rhy fyr a gwerthfawr i'w dreulio ar lafur ofer. Credwn fod llawer o

WASTRAFFU AMSER UWCHBEN Y PAPUR DYDDIOL

neu wythnosol — i ddarllen hanes llofruddiau, tor-priodasau, a gweithredoedd anfad o bob math,—pethau seimllyd sydd yn tueddu i friwio ac ystaenio calonnau a meddyliau yr ieuainc yn enwedig. Anfeidrol well fyddai treulio'r amser hyn i ddarllen llyfrau adeiladol.

Peth eithriadol yng Nghymru oleuedig (?) yw mynd i dy lle y gwelir llyfrgell weddol lawn, a mwy eithriadol fyth yw gweld llyfr gwerth ei drysori, ag eithrio'r Beibl. Ofnwn fod llawer ty heddyw heb gyfrol o'r Beibl—nid oherwydd prinder arian ond drwy eisiau ystyriaeth a chwaeth.

"NID OES WERTHU AR LYFRAU CYMRAEG,"

meddai llyfrwerthwr yng Ngheredigion wrthym yn ddiweddar. Mae hyn nid yn unig yn resyn ond yn warth ar y trigolion, yn enwedig mewn ardaloedd lle ni cheir llyfrgell gyhoeddus.

Nid rhywbeth i'w fenthyca o lyfrgell gyhoeddus am bythefnos yw llyfr da, ond cyfaill agos teilwng o le parhaol a pharchus yn y ty,—cyfaill i droi ato yn barhaus am adnewyddiad calon a meddwl ac ysbrydoliaeth i gwrdd ac anhawsterau bywyd yn llwyddiannus. Un o fendithion goreu bywyd yw dod o hyd i lyfrau da, a syrthio'n ddwfn mewn cariad a hwy hyd angau.

CYNLLUN DA

yw gwneud archwiliad gofalus mewn llyfrgell helaeth, a nodi yn y cof y llyfrau ydynt o werth parhaus, a'u pwrcasu gynted ag y caniata amgylchiadau, ac yna gwneud eu cynnwys yn rhan o ystor y meddwl.

Darllen yw un o'r breintiau goreu y gwyddom am danynt i

YCHWANEGU AT BLESER A GWERTH BYWYD,

ond dyma un o'r breintiau a esgeulusir yn ddifrifol. Am ychydig bunnoedd gellir prynu hufen meddwl y byd,—hanes diddorol y ddaear a'r hil ddynol arni, delfrydau'r beirdd, cyfrinach cerddorion, swyn arlunwyr a rhamant gwyddor, ac uwchlaw popeth y goleuni moesol ac ysbrydol, heb yr hwn nid yw dyn ond anifail truenus.

Yma ni chaniata gofod i ni ond cyffwrdd ag ymyl y testun. Diddorol fyddai gwybod faint o *dderbynwyr* YR YMOFYNYDD gaiff ras i *ddarllen* ein hysgrif !

Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.

GANWYD GORFFENNAF 20, 1802.
BU FARW RHAGFYR 18, 1863.

Ceisir gennyf i ysgrifennu mathau o fywgraffiad o'r person a nodir uchod. Yr ydys wedi ceisio gennyf er ys blynyddau, gan fy nghyfaill ymadawedig, y Parch. W. James, ac eraill, a minnau fel mab yn teimlo fod y berthynas yn rhy agos fel ag i'm amddifadu o'r cymwysder priodol i wneuthur cyfiawnder a'r testun. Yr wyf wedi ceisio bywgraffu eraill, ond yr wyf yn teimlo'r anhawsder mwyaf i ymgymeryd a hwn. Pe buasai'n bosibl cael rhywun arall i ymgymeryd ag ef, ni wnaethwn i hynny ar un cyfrif yn y byd; ond y mae yn awr dros hanner can' mlynedd oddiar marw y gwrthrych, ac y mae ei gyfoedion, a'r rhai fu yn cydysgolia ag ef, neu a'u hadwaenent, fwyaf o honynt, wedi pasio hwnt i'r llen. O'r rhai sydd ar ol, y mae naill ai diffyg gallu, neu ddiffyg ewyllys, neu ddiffyg hwyl yn rhwystr effeithiol iddynt ymgymeryd a'r gorchwyl.

Perygl un yn perthyn yn rhy agos yw synthio i'r amryfusedd o organmol, a gosod y lliwiau yn rhy ddwfn; neu ynte o'i tu arall, trwy ofod rhag mynd i eithafion, bod yn rhy gynnil gyda'i liwiau, ac felly fethu rhoi argraff byw o'r gwrthrych.

Adwaenid ein gwrthrych yn gyffredin yn mhlith ei hen gyfeillion fel John Jones, Rhandir, am mai yno y treuliodd lawer o flynyddoedd bore ei oes. Yn Mhantlluest, Llanarth, Sir Aberteifi, fodd bynnag, y ganwyd ef Gorffennaf 20, 1802. Enw ei rieni oedd David a Mary Jones. Hanai David Jones (a fu farw Rhagfyr 3, 1809, yn 41 oed) o deulu a fuont yn byw yn Nghletwr, ac yn berchen arno, ynghyd a rhai lleoedd eraill yn y gymdogaeth am genedlaethau na wyddis pa nifer. Cafodd John ran o'r tiroedd hyn yn etifeddiaeth; ond arferai ddywedyd, os cafodd ychydig gyfoeth ar ol ei dad, ei fod wedi etifeddu pa synnwyr bynnag oedd ganddo oddi wrth ei fam. Bu hi farw Hydref 13, 1836, yn 63 oed. Hannai o deulu brau iawn. Yr oedd llawer o honynt wedi marw yn ifanc o'r darfodedigaeth. Pan glywodd Pegi'r Stocks, perthynas o bell, am eni John Jones, dywedodd, "mi fydda i byw i weld claddu hwnna eto." Yr oedd enw Pegi yn un o dri yn lês Sarnau Gwynion. Cofiaf adeg marw Pegi, a chofiaf sylw gwrthrych y cofiant hwn ar y pryd. Dywedodd gyda gwên, ac ymddangosai'r peth megys yn newydd da ganddo—"mae Pegi wedi methu yn ei phroffwydoliaeth y tro hwn." Yn Llanarth, megys mewn llawer plwyf arall yn Nghymru arferid gynt roi enw, neu fath o lysenw ar wahanol deuluoedd yr ardal. Adwaenid y llwyth y perthynai John Jones iddo wrth "Adar Bras yr Yd"—enw awgrymiadol iawn, mi dybiaf. Cofiaf ef yn dweyd fod tri theulu yn y gymdogaeth, lle'r oedd rhif y plant yn 22, 21, a 19. Ni wn i ddim a oedd y rhai hyn o nifer yr "adar" crybwylledig ai nad oeddynt. Gallwn feddwl fod rhif y plant yn eu gwneud yn hollol deilwng o'r anrhydedd.

Nid oedd Pantlluest ond fferm fechan. Yr oedd y tŷ yn hen a'r gwelydd tua llathen o drwch. Clywais adrodd lawer gwaith fod y llaeth a geid yno mor gyfoethog o hufen fel y daliai un o'r hen geiniogau owns—ceiniogau Sior IV—ar ei wyneb heb suddo. Symudodd y teulu pan oedd John yn ifanc iawn o Bantlluest i Randir—tyddyn dipyn yn helaethach, a rhan o ffarm Talgarreg, a ddaeth yn etifeddiaeth i'w dad ar farwolaeth ei ddau frawd, John a Jenkin. Ei dad adeiladodd y tŷ ac a roddodd iddo yr enw Rhandir.

Yr oedd gan John Jones lawer o goffaon dyddorol am flynyddoedd bore ei oes. Ym mhlith eraill adroddai

am hen wr a deimlai ei hunan "yn nesu at ymyl y dwr" yn dywedyd gydag ochenaid ddwys, pan yn edrych ar lo bach yn cael ei ladd. O nad allwn i farw yn ddigyfrif fel y y llo bach yna. Gadawodd yr ochenaid ddwys a'i geiriau hynod argraff ddofn ar ei feddwl, er na ddeallai eu hystyr ar y pryd. Peth a ddygai bryder i feddwl aml i Gristion duwiol yn yr amser gynt oedd yr ofn nad oeddynt o nifer yr etholedigion. Cafodd y bardd Seisnig William Cowper ei flino, hyd at golli ei synwyrau, gan y pryder yng nghylch ei gyflwr dyfodol.

Coffa arall a glywais ganddo oedd am hen wr gwahanol iawn—un a fedrai weld yn ddwfn a gweld yn mhell. Dywedodd hwn wrtho un tro, gyda'i lygaid ar y tegell yn berwi ar y tân—"Fyddi di byw, machgen i, i weld dynion yn tramwy'r wlad wrth gefn tegidle!" A hynny a fu pan aeth efe a'i deulu i lawr i Aberdar i weld agor y T.V.R. yn 1847.

Tua'r amser hwn yr oedd pwnc y Symudydd Parhaus (*perpetual motion*) yn cael llawer iawn o sylw yn y wlad yn gyffredin; ac yr oedd y meddwl lleol yn Llanarth, fel mewn mannau eraill yn brysur iawn gyda'r gwaith o geisio dyfeisio rhyw gynllun i'w sicrhau. Tybid fod ffortiwn sicr yn aros yr hwn a lwyddai. Ceisiodd un drefnu y rhod ddwfr oedd yn gweithio'r felin, nid yn unig i wneuthur ei gwaith arferol, ond hefyd i godi'r dwfr drachefn ar ol iddo basio dros y cafan, ac felly i barhau yn troi y rhod. Un arall a geisiodd osod dwy *spring* nerthol, tebyg i *spring watch*, ar waith, ond yn tynnu'n groes i'w gilydd, a hynny yn y fath fodd, fel y tybiai, y byddai i'r naill gymeryd i fyny'r gwaith pan fyddai'r llall wedi dihyspyddu ei nerth. Galwodd hwn ei gyfeillion yng nghyd i weld ei ddyfais ar waith. Doniol iawn fu ei brofiad. Pan ollyngodd y peiriant yn rhydd, rhedodd yn hwylus am dipyn bach, ond yn y man wele ef yn codi i fyny, ac yn tampio hwnt ac yma, mewn modd na freuddwydiodd y dyfeisydd. Brawychwyd ef yn ddirfawr gan ofn niwed iddo ei hun neu i'w gyfeillion, a ffoisant oll o'r golwg am ddiogelwch, er difyrrwch mawr yn ol llaw, i'r gwahoddedigion. Ofer hollol fu'r holl geisiadau, a gwyddys heddyw eu bod mor ddibwrpas, ac mor ddiobaith llwyddiant a het Jacalantar. Ebe Tomos, y gof, wrthyf un tro, ar ol adrodd rhai o'r helyntion hyn: "Pan alloch chi go li eich hunan i ben y ford wrth gydio yn nau clust y wyntyll o'r llawr, neu drwy dynnu wrth ddwy strapen eich esgid, byddwch wedi dadrys dirgelwch y *perpetual motion*.

Un o gyd-chwareuwyr John Jones, ac un a dreuliodd lawer awr ddifyr gydag ef yn blentyn oedd Tomos Parry (1803—1875), a anfarwolwyd wedi hynny gan Amnon, fel Twmi Parry'r Gwahoddwr. Cwrddent a'u gilydd bob bore, a phob bore yr oedd yn rhaid cydio codwm. Yr oedd Twmi yn ifancach beth, ac yn llai dyn o lawer. Bob tro fe ddodid cefn Twmi i lawr, ond nid oedd waeth hynny na pheidio, yr oedd yn rhaid cydio dranoeth drachefn. Chwerthinai Thomas Parry yn iachus pan yn adrodd wrthyf, yn hen wr, am y gwrol-gampau hyn.

Yr oedd yfed tê yn beth dieithr iawn y pryd hwn, a gwnelai'r sawl a'i hyfent ddirgelwch mawr o hono Yr oedd math o yswildod i neb y tu allan wybod eu bod yn yfed tê. Ebe'r fam wrth Rees, y mab hynaf, Dos a dywed wrth dy dad am ddyfod i fewn. Paid gweyd i beth. Dyna Rees yn mynd allan, a'i feddwl mewn cryn dipyn o benbleth, sut y gallai beri i'w dad ddeall heb i eraill gael gwybod beth oedd yn mynd yn mlaen. A dyma fel y daeth allan o'r dyryswch—"Nhad, mae'r tegil yn canu."

Yn 1809, bu ei dad farw yn ddeugain oed, gan adael gweddw a thri o blant ar ei ol, Rees yn 12, Elizabeth yn 9, a John yn 7 oed. Ni wyddys yn iawn pa bryd yr aeth John gyntaf i ysgol Dafis, Castell Hywel, na pha

un a fu yn ysgolia yn rhywle arall cyn mynd yno ; ond darllenwn iddo ef a'i frawd â'i chwaer, pan ailbriododd ei fam yn nyddiau Calanmai 1812, gael eu cymryd o'r ysgol. Ni chafodd Rees ddychwelyd byth mwy. Bwriadai ei dad iddo gael yr ysgol ore posibl, ond tybiai ei lysdad ei bod yn well iddo aros gartref i helpu ar y fferm.

(*Pw barhau.*)

JONAH A'R PYSGODYN MAWR.

Mae cymaint o wahanol farnau wedi eu traethu ar lyfr Jona, a'r rhai hynny mor gwbl wrthun a chroes i'w gilydd, fel y mae un ysgrifennydd diweddar wedi cael ei dueddu i ddweyd fod y morfil wedi llyncu'r esponwyr yn ogystal a'r proffwyd. Fel y gŵyr y darllenydd, mae llawer o wawd a gwatwar wedi ei wneud o bryd i bryd gan elynion y Beibl, yn bennaf yn mherthynas i hanes hynod Jona a'r pysgodyn mawr—"pysgodyn mawr," sylwer, ni ddywedir morfil. Dangosant yn amlwg nad oedd ganddynt y dychymyg lleiaf am wir ystyr y llyfr. Diben y llinellau hyn fydd ceisio gosod allan esponiad arall mwy rhesymol arno.

Ni wyddis pwy ydyw'r awdur, ond cawn ef yn benthycia enw y Jona hwnnw a ddesgrifir yn 2 Brenhinoedd 14 : 25, fel "Jonas, mab Amittai y proffwyd, yr hwn oedd o Gathhepher." I ateb ei bwrpas yr oedd yn angenrheidiol i'r ysgrifennydd amseru ei stori cyn adeg y gaethglud ; a chan y dymunai ei gysylltu a rhyw berson hanesyddol, atebai Jona ei bwrpas cystal ag unrhyw un arall. Fel yr awgrymir yn yr adnod grybwyllwyd yn barod, fe broffwydir am y buddugoliaethau drwy y rhai yr adferodd Jeroboam II ddiwedd Israel. Saif Jona felly yn burion fel cynrychiolydd y gwladgarwch oedd yn gorfoleddu yn nymchweliad gelynion paganaidd Israel. Nid yw'r llyfr i'w gymryd fel desgrifiad o ddigwyddiad hanesyddol ; stori yw, dameg neu alegori, feallai, yn cynnwys gwers bwysig oedd yn eisieu ar yr Iddewon, i ddysgu iddynt fod Duw yn Dduw nid iddynt hwy yn unig, ond i genhedloedd eraill hefyd, os gwnelent yr hyn oedd gymeradwy yn ei olwg ef.

I'r awdwr, gan hynny, cynrychiola Jona y llyfr, y teimlad oedd gan Israel, neu'r Iddew yn gyffredin, tuag at y cenhedloedd ; ac fel mae Jona yn cynrychioli Israel, felly y mae Ninefe yn cynrychioli y byd paganaidd. Enwir Ninefe o flaen unrhyw ddinas arall, am mai hi oedd prif ddinas Assyria, a saif Assyria yn hanes Israel fel corfforiad o bob creulonder yn erbyn dynoliaeth. Fe welir pa fath deimlad oedd gan yr Iddew at Ninefe yn mhroffwydoliaeth Nahum. Nid oes cais i fantellu drygioni Ninefe, ac y mae yr awdwr mor ymwybodol o hono, fel y mae yn ei wneud yn rhan o'i genadwri : "Deugain mlynedd fydd eto a Ninefe a gwympir." Ond trown at y llyfr ei hunan.

(Darllener penodau i, ii). Sylwer fel y mae Jona yn meddwl y gall, wrth fynd i ffwrdd i Joppa a Tarsis, ffoi oddi ger bron yr Arglwydd. Gorchmynnir iddo gyhoeddi barn yn erbyn Ninefe oherwydd ei phechod ; ond y mae Jona yn brysio i gyfeiriad gwahanol. Fe ddeallir paham yn ddiweddarach. Ond a ydyw yn bosibl inni ddianc o wyddfod yr

Arglwydd? Os dywed cydwybod ei bod yn ddyledswydd arnom i wneud rhywbeth, a allwn ni osgoi y ddyledswydd honno drwy ffoi i wlad arall? Onid yw'r esgeulusdod o'r ddyledswydd yn dwyn gydag ef ei gosp, ei boen, ac yn cysylltu eraill hefyd yn ein gwarth ni?

Sylwer hefyd fod yr ysgrifennydd yn gosod allan yr Arglwydd fel yn awyddus i arbed "Ninefe, y ddinas fawr;" ac wele Jona, y proffwyd Iddewig yn gwrthod mynd. Paham hyny? Yr oedd yr ysgrifennydd am ddangos fod Duw hefyd yn gofalu am y paganiaid, ac mae culni yr yspryd Iddewig oedd yn rhwystro Jona i ufuddhau i orchmynion Duw. Yna dengys mor ofer yw inni osod ein hunain yn erbyn ei orchmynion Ef. Mynd i Tarsis—nid oedd o un diben iddo, gan fod y gwynt a'r tonau hefyd yn weision Jehofa. Nid oedd ei fwrw i'r môr o fawr pwrpas, gan y bwriadai yr Arglwydd iddo fynd i Ninefe, ac oni allai efe drefnu pethau yn y fath fodd fel y cawsai ei was ei achub gan bysgodyn. Sylwer fel mae'r ymwybyddiaeth o anufuddodod yn arwain Jona i'r fath edifeirwch, fel y mae'n foddlon cael ei ddinystrio ei hunan yn hytrach na bod eraill yn cael eu dinystrio gydag ef, yr unig ffaith, feallai, y gallwn ei lwyr gymeradwyo. Mae y cyfaddefiad o ddrwg yn tueddu i wneud y rhai hynny y cyfaddefir iddynt yn fwy trugarog na'r drwg-weithredwr ei hunan. Rhywbeth tebyg y gallwn feddwl oedd rhai o'r pethau oedd yn meddwl yr ysgrifennydd pan yn gosod ei stori yn nghyd. Awn yn mlaen yn awr at weddill y stori.

[Darllener Jona, pennod iii, iv.] Gellir gweld fod yr ysgrifenydd o hyd am ddangos culni teimlad y proffwyd, ac helaethiwydd trugaredd yr Arglwydd. Dacw Jona yn dod i Ninefe, ac yn dweyd wrth y bobl y caffai eu dinas ei dinystrio. Nid yw yn eu hannog i edifeirwch. Mae eisiau arno ddangos gallu a mawredd *ei dduw*, ac y mae'n bygwth dinystr arnynt. Ond y mae'r bobl mewn dychryn wrth feddwl am y dynged fygythir, ac y maent yn troi oddiwrth eu ffyrdd drygionus. A Duw, wrth weld hyn, mae yn arbed y ddinas rhag bygythion y proffwyd.

A oedd Jona yn falch o hyn? Dim o'r fath beth. Efe a ddigiodd yn fawr. Yr oedd am i'w broffwydoliaeth ddyfod yn wir. Meddyliai fwy am hynny nag am fawredd trugaredd Duw. Yr oedd yn fwy pwysig ganddo ef fod ei fygythion yn cael eu cyflawni, nag fod pobl Ninefe yn edifarhau ac yn cael eu hachub. Fel hyn y mae'r ysgrifennydd yn mynd rhag ei flaen i ddweyd sut mae Duw yn ceryddu Jona, drwy nodi allan iddo gymaint yn fwy pwysig oedd Ninefe a'i thrigolion nag oedd y cicaion; ac mor afresymol oedd fod Jona yn ddig wrth Dduw am beidio arbed y cicaion, tra ar yr un pryd yr oedd yn ddig wrtho am ei fod yn arbed Ninefe.

Yn fyr, gellir dweyd fod y ddameg yn dysgu eangder caritor llywodraeth Duw, y ffolineb o geisio anufuddhau i'w ddeddfau, a'i barodrwydd Ef i faddeu i'r edifeiriol pan ddadgosant arwyddion edifeirwch drwy ddiwygiad bywyd a buchedd.

Q.Q.

Diarbed yw'r Angau, p'le bynnag y delo,
Cardotyn a Brenin a barcha 'r un wedd;
Wrth ddrws y Pendefig mor fynych mae'n curo
A Bwthyn y Bugail—pawb deimlant ei gledd.

G. EDWARDS.

Y MAEN A DREIGLWYD.—Luc 16: 3, 4.

Naturiol oedd i'r ddwy Fair, ar fore'r Sabbath, pan yn nesu at y bedd, ymholi a'u gilydd, a gofyn, Pwy a dreigla'r maen? Disgwylient fod y maen yn drwm, a thuhwnt i'w gallu i'w symud. Er hynny yr oedd eu ffyddlondeb yn gyfryw fel na ddarfu iddynt ddychwelyd yn eu hol. Er gwaethaf y rhwystr tybiedig aethant yn eu blaen, ac er mawr syndod iddynt cawsant y maen wedi ei dreiglo ymaith.

Fel hyn, weithiau, cawn wasanaeth cariad yn cario bendith hwnt i'n disgwyliad. Byddwn yn trefnu, a bwriadu a gwneud cyfrifon a chael ein siomi, tra mae Ffydd yn parhau'r daith yn wrol, a Chariad yn canlyn ei greddf ddwyfol heb ofyn am y *Pa fodd* a'r *Paham*. Gwna ei haberth a gedy y rhwystrau ar y ffordd i Dduw. Câr efe fod yn raslawn, sioma'n hofnau, gwna "yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl."

Mor falch y rhaid fod y menywod hyn am na ddarfu iddynt adael i'w hofn yn nghylch y maen eu troi oddi wrth eu hamcan.

Awn rhagom, gwnawn neu dywedwn yr hyn sydd yn ein calon, a chawn, yn rhywfodd neu gilydd y treiglir y maen i ffwrdd. Rhyfedd yw ffyrdd Rhagluniaeth!

Mae yn werth i ni sylwi fod y ddwy fenyw yn ofni trallod nad oedd mewn gwirionedd yr un bodolaeth iddo.

Ni ddywedir dim wrthym sut y treiglwyd y maen trwm, yr hwn oedd yr anhawsdra mawr iddynt. Dichon fod ymwelwyr boreuach wedi bod wrth y bedd o'u blaen hwy, ond y mae'r hanes yn ddistaw am y rhai hynny.

Ymddengys, yn debyg, o leiaf, fod y maen ar y pryd yr oeddynt hwy yn ymholi sut y gallent ei dreiglo, fel mater o ffaith, wedi ei droi o'r neilldu eisoes. Dyna'r fath o wyrth lwcus a ddigwydd yn amlach, feallai, nag a dybiwn. Mae y rhan fwyaf o honom, nid unwaith, nid dwywaith, wedi pasio trwy ganol trallod a ymddangosai yn sylweddol iawn. "O," meddwn, "pwy a dreigla'r maen i ffwrdd?" Ond pan ddeuwn i'r fan cawn nad oedd yno'r un maen i'w gael! Fe ddaw trwbwl. Nid oes yr un o honom a ddichon ddianc rhagddo. Mae'n eithaf posibl na fyddai yn dda i ni pe gallem. Ond trwy bob peth a wyddom am Gariad Duw, a thrwy bob peth a ddioddefasom oddiwrth drafferthion a thrallodau nad ydynt erioed wedi dyfod i fodolaeth, nad ydynt erioed wedi cymeryd lle, gwnawn benderfyniad, hyd nes bydd i Dduw yn ei ddoethineb a'i gariad ei apwyntio, na wnawn mor frysiog ei gymeryd yn ganiataol.

Yn ddiameu, os edrychwn ato ef, fe wna Duw ein helpu i oddef y trallod pan y daw. Megys ein dyddiau y bydd ein nerth. Ond gyda pha fath wyneb y gallwn ni ofyn cydymdeimlad neu help oddiwrth ddyn neu oddiwrth Dduw, i'n galluogi i oddef trallod *cyn* y daw. Ac eto dyna'n hollol y mae rhai o honom yn ei wneud yn barhaus. Dywedant yn eu plith eu hunain, Pwy a dreigla'r maen i ffwrdd? A phan edrychasant, hwy a ganfuant fod y maen wedi ei dreiglo ymaith.

Rhagot, ti gyfaill o galon drallodus, ac hydera yn Nuw yn wastadol, gan y dichon y cei pan ddeui *di* i'r fan y bydd dy faen *di* hefyd wedi ei dreiglo ymaith.

A. A.

MARRIAGE.

MELLOR—EVANS. April 8th, at Park y Velvet Unitarian Chapel, Carmarthen, John, eldest son of the late Mr. and Mrs. John Mellor, of Blundellsands, near Liverpool, to Alice Jeremy, elder daughter of Principal and Mrs. Evans, Green Hill, Carmarthen.

MARWGOFION.

MAWRTH 12, yn ddwy flwydd a thri mis oed, Hannah May, geneth fechan Esaiah a Rachel Ann Lewis, Gwrachyllwyni, Trebanos. Rhyfeddol fu sydynrwydd ei symudiad—dim ond ychydig oriau y bu'n glaf.

"Brau yw oes a byr ei hyd,—
Hi ddiflanodd fel enyd."

Claddwyd y dydd Mawrth canlynol, wrth Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd gan y Parch. Pugh Jones (W.), Pontardawe.

MAWRTH 25, yn nhy ei mab a'i merch-yng-nghyfraith, 38 Orchard Street, Abertawe, bu farw Mary Jones, gynt o Bentrerhys, plwyf Llanwenog, yn 89 oed. Er fod ei nerth corfforol wedi pallu er's blynyddau, eto, ni chafodd ei llwyr gyfyngu i'w gwely hyd y diwedd, a bu farw ar y terfyn yn ddirybudd. Gan ei mab a'i merch-yng-nghyfraith yn y lle uchod cafodd bob gofal a thynerwch yn ystod yr ychydig fisoedd y bu gyda hwynt. Dydd Mawrth canlynol, yn unol a'i dymuniad, dygwyd ei chorff gyda'r modur i gladdfa Alltyplacca, pryd y daeth nifer liosog o'i hen gymydogion i'r Capel fel arwydd o'u parch iddi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, Capelygroes.

MAWRTH 31, yn 21 mlwydd oed, David Morgan Thomas, ail fab Mr. Enoch Thomas a Mrs. Mary Thomas, Cnwc, Llanybyther. Dechreuodd ei iechyd waelu tua blwyddyn yn ol, a gwanychu wnaeth hyd y diwedd. Yr oedd o ysbryd llednais ac o gymeriad glan. Bu yn aelod ffyddlon gyda'r Annibynwyr yn Rhydybont. Tua blwyddyn yn ol bu farw ei unig chwaer, yn 22 mlwydd oed, a pharodd ei cholli fwlch yn eglwys Alltyblacca, lle yr oedd yn aelod. Claddwyd yn Alltyblacca. Pregethwyd gan y Parch. D. James, Rhydybont, a chymerwyd rhan gan y Parchn. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd, L. Williams a J. Davies. Y Tad Nefol a'u cysuro yn eu tristwch, ac a'u nhertho i ddal tan y profedigaethau geirwon.

EBRILL 3, yn naw wythnos oed, bu farw Mary H. Price, baban Mr. a Mrs. A. Price, Croesgwenllian, Llanwenog. Cystudd fu hanes ei bywyd yma, er ei fyrred, ond croesodd i fyd di-gystuddiau gan adael tad, mam, a brawd ieuanc yn drist hebddi. Y dydd Mercher canlynol hebryngwyd ei gweddillion marwol i orwedd ym mynwent Eglwys Llanbedr. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. T. O. Williams, ac yn yr Eglwys gan Gurad y Plwyf.

"Siwrnai fer, os ofer oedd,
Siwrnai ofer sy' i'r nefoedd."

EBRILL 6, ar ol cystudd o amryw fisoedd, bu farw Maggie Evans, Tynclawdd, plwyf Llanwnen, yn 31

oed, gan adael mam, priod a phlentyn, dwy chwaer, ynghyd a pherthynasau ereill a chyfeillion mewn galar ar ei hol. Yr oedd yn wraig ieuanc hynaws, ac o dymer ddymunol iawn, a hoffid hi yn fawr gan bawb a'i hadnabyddai. Yr oedd yn aelod yng Nghapelygroes, a harddodd ei phroffes â'i rhodiad syml, diniwed, glan. Nid dymunol i deimlad ei pherthynasau yw ei cholli fel hyn mor gynnar; ond y mae'r goffadwriaeth am dani yn felus iddynt. Dydd Sadwrn canlynol, daeth tyrfa liosog yng nghyd i hebrwng ei rhan farwol i ymyl gweddillion ei thad ym mynwent Capelygroes. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. T. O. Williams, B.A.; E. Glyn Edwards, a J. Davies.

EBRILL 9, ar ol cystudd byr iawn, bu farw John Jenkins, Blaenwaunganol, plwyf Llanwnen, yn 72 oed. Yr oedd ei iechyd wedi ei amharu yn fawr er's tua dwy flynedd, fel na fedrai ddilyn ei oruchwylion fel cynt, ond yr oedd wedi adennill ei nerth gymaint yn ddiweddar, fel na feddylid lai nad oedd llawer o flynyddau yn ol iddo eto. Dydd Sadwrn cyn ei farwolaeth, bu yn Llanbedr—i bob ymddanghosiad yn y meddiant o'r iechyd arferol; yn fuan dechreuodd achwyn, ac yn ystod y tri diwrnod olaf gwaethygodd yn gyflym, a daeth y terfyn yn annisgwyliadwy. Gadawodd mewn galar ar ei ol bedwar brawd (o'r rhai y mae'r Parchn. E. E. Jenkins, Walmsley, a J. E. Jenkins, Birkenhead) a thair chwaer. Gan ei chwaer a'i frawd cafodd bob tynerwch yn ystod ei gystudd. Gwelir ei le ar yr aelwyd yn wag iawn, yn ddiau, a theimlir hiraeth ar ei ol; ond y mae moddion cysur mewn amgylchiadau o'r fath hyn. Dydd Mawrth canlynol, hebryngwyd ei weddillion i gladdfa Capelygroes; yn y ty, yr oedd y cynhebrwng yn anghyhoedd, ond daeth nifer liosog iawn o berthynasau a chyfeillion i'r Capel fel arwydd o'u parch iddo. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. J. Davies, L. Williams, a D. Conwil Evans.

EBRILL 15, yn Plas-y-coed, Gorseinon, bu farw Mr. David Davies, yn 71 mlwydd oed, ar ol cystudd byr o tua wythnos, o'r *bronchitis*. Brodor ydoedd o ardal Cwmbwrla, ger Abertawe. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capel y Babell, Cwmbwrla, prydnawn dydd Mawrth, Ebrill 20. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. J. Talfan Davies (M.C.), Libanus, Gorseinon, ac yn y Capel gan y Parchn. D. G. Rees, Gellionen, trwy ddarllen, a Rhys Lewis (B.), Craig-cefn-parc, yn offrymu gweddi, ac anerchiadau gan y Parchn. J. Talfan Davies, a Dr. W. Tudor Jones, Bryste, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. W. Morgan (A.), Brynteg, Gorseinon. Yr oedd yn bresenol hefyd y Parchn. Ddr. A. S. Hurn, Abertawe, a D M. Rees, Tredegar. Bu y diweddar Mr. Davies yn llanw lle pwysig yn y gweithfeydd dur ac alcan. Bu ef a'i briod yn byw am flynyddoedd yn Rwsia, ac hefyd yn yr Yspaen, yn dilyn ei alwedigaeth. Yr oedd yn ymgomiwr dyddorol iawn pan fyddai yn yr yspryd i adrodd ei brofiadau dieithr yn y gwledydd tramor hynny. Y tro diweddaf y bu ysgrifennydd y nodyn hwn yn ei gwmni, cafodd wersi pwysig ganddo ar ynganiad priodol yr iaith Ysbaenaeg, a'r seiniad priodol o'r enwau yn y gwaith anfarwol Cervantes, "Don Quixote." Pan ddaeth y Van Mission i Gorseinon rai blynyddau yn ol, Mr. Davies oedd y cyntaf i groesawu y cenhadwyr ac i'w cefnogi a'i bresenoldeb a'i weithgarwch, ym mhob modd oedd yn bosibl iddo. Ac nid yw un o honynt, fodd bynnag, byth wedi anghofio hynny. Yr oedd yn aelod o'r eglwys Undodaidd yn Abertawe, ac yn mynychu ei gwasanaethau mor aml ag y byddai pellder a'r amgylchiadau teithio anghyfleus yn ganiatau. Tystiolaethwyd yn yr angladd gan y Parch. J. Talfan

Davies, gweinidog ei briod, i'w gymeriad cryf, ei gydwybodolrwydd, a'i ffyddlondeb i'w argyhoeddiadau, i'w garedigrwydd fel cymydog, a'i elusengarwch i'r tlawd a'r anghenus. Yr oedd yn gymeriad ar ei ben ei hun fel dinesydd, ac y caiff Gorseinon golled ar ei ol. Yr oedd wedi ymneillduo o'r gwaith er ys rhai blynyddau. Yr oedd yn dderbyniwr cyson o'r YMOFYNYDD, ac yn cael blas mawr wrth ddarllen ei dudalenau. Cydymdeimlir yn ddwys a'r weddw yn ei hunigedd.—D.G.R.

EBRILL 16, yn 77 mlwydd oed, bu farw Mrs. Davies, Y Glyn, Treherbert, ger Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da yn ystod y gaeaf, a diffoddodd fel canwyll. Yr oedd yn adnabyddus i gylch eang yng nghymydogaeth Llanbedr a Chaeronen ar gyfrif ei sêl a'i ffyddlondeb ar bob tywydd, ac ar waethaf y ffordd a'r llesgedd, ac er fod Brondeifi yn ymyl, eto yng Nghaeronen y mynnai addoli Duw i'r diwedd. Hen wraig siriol a byw ydoedd, yn feddiannol ar lawer o graffder, ac yn egniol yn ei chylch ei hun. Y dydd Mercher dilynol hebryngwyd ei gweddillion marwol i fynwent Caeronen, a thystiai'i chynhebrwng parchus y telir parch i ffyddlondeb a sêl hyd yn oed yn yr oes hon. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan Weinidog Caeronen, gyda chynorthwy caredig y Parchn. D. Jones a J. D. Jones. Traddodwyd ei phregeth goffa yn y Capel oddiar y geiriau "Yn bwyllog, yn bur, yn gwarchod cartref, yn gobeithio yn Nuw." Gadawodd un mab, ac wyrion a pherthynasau ereill i alaru'n gymhedrol ar ol mam dyner a didwyll, ac eglwys dan ei chlwyf oherwydd galw ei ffyddloniaid adref un ar ol y llall.

EBRILL 18, yn 71 mlwydd oed, Lewis Hopkin, Cathelyd—Glyncoch yn awr. Gwyddom y bydd i hanes marwolaeth yr uchod beri tristwch a siom yn y wlad, yn enwedig yn y cylchoedd crefyddol Undodaidd. Yr oedd yn seren amlwg, ple bynnag y buasai—pa un ai mewn eisteddfod, cwrdd llenyddol, cyfarfod pregethu, neu gymanfa. Meddai ar wedd a gwyneb glan a golygus, ac ar lais soniarus a chlywadwy. Un o feibion brwdfrydicaf Cymru ydoedd ef. Yr oedd ganddo awen barod a barddonol, a hyawdledd o'r hyfrytaf. Yr oedd ei ysbryd mor dyner a chyffyrddiad llaw mam ar ei phlentyn claf, a mynych, mynych y gwelsom genhadon ei galon ar ei rudd. Bu fyw bywyd hynod o union, frithiwyd a llawer o rinweddau blodeuog. Hoffem ei ddawn ffein, a'i angerdd tanllyd. Yn bybyr fel crefyddwr, a'i ddidwylledd a'i garedigrwyddd yn ddau berl dihafal,—ac, yn sicr, nis gallem fforddio ei golli. Ond "nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys Di a wneler." Claddwyd y dydd Iau canlynol wrth Gellionen, y fangre a gerid yn fawr ganddo. Gweinyddwyd gan y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd gan y Parchn. Gwenffrwd Thomas, Velindre, a Rhys Lewis, Craigcefnparc.

Bedd i geriwb hawddgara' !—ei lon-
Oedd ei lawndid penna'; [der
Mwynhäi dyn ei gwmni da,—
Bert awenydd Britannia.

Mab y gwir ym mhob goror—ydoedd
Yn dyddhau'r dorf ; blaenor [ef,
I'n pau, ond ni ddug ein por
Ei athrylith ar elor.

Banos.

Darfu dydd y llywydd llawen—Lewis
Oedd loyw ei awen ;
Bardd i lu, fu bwrdd ei len,
O goll hwn ! bydd Gellionen.

Henry Morgan.

[*Gorfodwyd gadael allan o'r rhifyn hwn Farwgofion a Manion. Cânt ymddangos yn y nesaf.*]

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Erfynir ar yr Ysgolion i wneud y casgliad arferol at yr Adran uchod yn ystod mis Mai. Danfoner y casgliadau i Mr. Cledlyn Davies, Council School, Cwrtnewydd, Llanybyther.

RHYDYGWIN.—Cynhaliodd eglwys Rhydygwin ei heisteddfod flynyddol ar Gwener y Groglith eleni eto. Yr oedd y gystadleuaeth ym mhob rhan yn lliosog, a'r safon, yn ol tystiolaeth yr oll o'r beirniaid, yn uchel iawn. Er i'r diwrnod droi allan yn wlyb, daeth tyrfa liosog ynghyd i fwynhau y canu, yr adroddiadau, a'r pethau da eraill. Tystiolaeth pawb ydoedd eu bod wedi mwynhau yr eisteddfod eleni cystal ag erioed. Da fydd gan gyfeillion Rhydygwin glywed fod llawer o'r gwobrwyon wedi aros yn y lle.——Ar y 18fed o Ebrill, derbyniodd y Gweinidog ddeuddeg o aelodau newyddion i'r Eglwys. Gobeithiwn y bydd iddynt i gyd fod yn ffyddlon a defnyddiol.

ANRHYDEDDU MR. J. R. THOMAS.—Nis gwn a oes eisiau dweyd pa J. R. Thomas, canys i mi a channoedd ereill nid oes ond un J. R. Thomas, ond rhag ofn fod yna rywrai heblaw efe yn dwyn yr enw, gwell dweyd mai J. R. Thomas, Prifathraw Ysgol y Cynghor, Pontsian, Llandyssul, olygir gennym. Bu Mr. Thomas yn llanw y swydd o ysgolfeistr am y cyfnod maith o 38 o flynyddoedd, a threuliodd 32 o honynt yn brifathraw Ysgol Pontsian. Dywed Emerson nad oes neb heb ei ddylanwad. Beth am ddylanwad un fel Mr. Thomas, sydd wedi cael cannoedd lawer o blant o dan ei ofal ym mlynyddoedd tyneraf eu bywyd, ac un ag y mae y plant fu dan eu ofal yn dilyn pob math o alwedigaeth bron, a hynny mewn llawer cwr o'r wlad a'r byd? Credwn ei fod wedi profi ei hun yn athraw medrus a ffyddlawn, a gwyddom fod gan ei hen ysgolheigion barch mawr iddo. Mae gwasanaeth gwerthfawr Mr. Thomas i'r eglwysi a'r achos Undodaidd yn hysbys i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr YR YMOFYDYDD. Mae wedi bod yn Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig, arweinydd Cymanfa Ganu Ceredigion, arweinydd canu Cymanfaoedd Ysgolion, arholwr dan nawdd Adran yr Ysgol Sul, a'r farn unfrydol yw ei fod wedi llanw pob un o'r swyddi yma hyd yr ymylon. Mae eglwys Bwlchyfadfa mewn dyled mawr iddo, a hynny ar lawer cyfrif, ond yn bennaf, feallai, am ei lafur gyda'r canu ac fel ysgrifennydd yr Eglwys am gyfnod maith. Erbyn hyn mae Mr. Thomas wedi ymddiswyddo o'r gwaith o fod yn athraw, ac nos Iau, Ebrill 1, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Hen Gapel Llwynrhydowen i ddatgan ein teimladau da tuag ato a'n diolchgarwch iddo am ei fywyd gwasanaethgar. Yr oedd y Capel yn orlawn, a phawb yn ymddangos yn awyddus i anrhydeddu J. R. Thomas, ac yr oedd llawer wedi dod bellder ffordd i'r cyfarfod. Cafwyd noson hwylus rhyfeddol—siaradwyd yn dda ac i bwrpas; canwyd yn dda ac i bwrpas; tra yr oedd canu ac "actio" y plant o dan arweiniad un o'r athrawesau, Miss Maggie Davies, Maesllwyd, yn rhagorol iawn. Yn wir, yr oedd yn un o'r cyfarfodydd mwyaf hwylus a chynnes y buom ynddo er's llawer blwyddyn, a phrif nodyn y cyfarfod o'r dechreu i'r diwedd oedd anrhydeddu J. R. T. Nid mewn siarad a chanu yn unig y dangoswyd teimlad da ei hen-ysgolheigion a'i gyfeillion tuag ato ond anrhegwyd ef a swm sylweddol iawn o arian. Bwriada Mr. Thomas a'i briod ymfudo i'w dy ei hun, Glyn, Talgarreg, i dreulio gweddill ei ddyddiau. Boed iddo gael nawnddydd hir, tawel, tesog, i fwynhau o ffrwyth ei lafur.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

LINDSEY PRESS PUBLICATIONS.

The Idealism of Jesus. By Sir Henry Jones. Preface by Rev. L. Jenkins Jones. Crown 8vo, 62 pp., 1s. net, postage 1½d.

Pauline Meditations. By James Drummond, M.A., LL.D., Litt.D. With Memorial Introduction by Edith Drummond and Professor G. Dawes Hicks. Crown 8vo, lxii+312 pp., 7s. 6d. net, postage 6d. Photogravure Portrait.

The Way of Life. New Testament Studies. By James Drummond, LL.D., Litt.D. Vol. I. The Parables of Jesus. Vol. II. The Lord's Prayer and the Teaching of Jesus. Crown 8vo, cloth, 2 vols., 8s. net, postage 6d.

The Spikenard and other Sermons. By Stopford A. Brooke, M.A., LL.D. With Introduction by Rev. J. H. Weatherall, M.A. Crown 8vo, 138 pp., 3s. 6d. net, postage 3d.

Labour and Religion. By Richard Lee, M.A. An Appeal to Labour on behalf of a Free and Progressive Religious Faith. Pamphlet 24 pp., 2d., postage ½d.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.
Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11

			£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England			63,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*			2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice			65,809,169	12	4
,, Investments :—					
War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..			57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures			468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..			1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds			1,410,465	18	10
Sundry Investment			1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange			39,249,296	3	2
			232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..			99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans			14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..			13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..			3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares :—					
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid					
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid					
Cost	£1,237,500	0 0			
Less part Premium on Shares issued ..	477,810	0 0			
			759,690	0	0
			£363,516,657	8	10